Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2019

**Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG)**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cynllun Morol Cenedlaethol** cyntaf ar gyfer Cymru ar y 12 Tachwedd 2019. Mae'r cynllun wedi ei fabwysiadu bellach, a bydd yn rhaid i'r **Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol** wneud penderfyniadau'n unol â'r cynllun, fel y nodir yn Adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) lle:

- *S.58(1) A public authority must take any authorisation or enforcement decision in accordance with the appropriate marine policy documents*, unless relevant considerations indicate otherwise.* *o safbwynt Cymru y ddogfen briodol yw Datganiad Polisi Morol y DU [1]a hefyd Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru unwaith y caiff ei fabwysiadu sy'n mynd i'r afael â rhanbarthau cynllunio Cymru ar y glannau ac ar y môr.

- Mae dyletswydd gyffredinol arall hefyd yn codi o dan S.*58(3) to have a regard to the appropriate marine policy documents in taking any decision which relates to any function capable of affecting the whole or any part of the UK marine area which is not an authorisation or enforcement decision.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei dull o fynd i'r afael â chynllunio morol, a hynny ar y cyd â gwahanol randdeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau cyhoeddus a defnyddwyr allweddol eraill y cynllun. Hoffem adeiladu ar y dull cydweithredol hwn o fynd i'r afael â chynllunio morol.

Er mwyn cydnabod swyddogaeth arbennig yr awdurdodau hyn o safbwynt helpu i weithredu'r cynllun o dan S.58(1) (hy fel corff a all wneud penderfyniadau awdurdodi a gorfodi *a allai* effeithio ar yr ardal forol) ac o ystyried natur newydd cynllunio morol, rydym yn sefydlu **Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG)**.

Prif ddiben y grŵp yw helpu awdurdodau cyhoeddus perthnasol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol (er enghraifft o ran penderfyniadau a wneir ar y tir a allai effeithio ar y môr neu benderfyniadau yn Lloegr a allai effeithio ar Ardal Forol Cymru) a thrwy hynny sicrhau bod modd gweithredu Cynllun Morol cyntaf erioed Cymru mewn modd effeithiol, effeithlon, prydlon a chyson.

Daeth y grŵp hwn at ei gilydd ym mis Hydref ymhell cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu i'n cynghori ynghylch y gwaith cynllunio a hefyd yr agweddau ymarferol ar weithredu'r cynllun dros y blynyddoedd nesaf.

Mae nifer yr awdurdodau cyhoeddus posibl (tua 30 o gyrff) a'r ffaith eu bod ar wasgar ar draws y DU a thu hwnt yn gryn her.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/uk-marine-policy-statement

**Sut rydym yn bwriadu symud ymlaen:**

- **Awst 2018** Cynhaliwyd tri gweminar gyda'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol.
- **Hydref 2018** Cyfarfu y grŵp wyneb yn wyneb, ble y cyflwynwyd y cynllun morol drafft ac y cynhaliwyd trafodaethau ynghylch cyfrifoldebau, dulliau gweithredu posibl ac aelodaeth.
- **Chwefror 2019** Cyfarfu y grŵp i drafod y Canllawiau Gweithredu, fydd yn cyd-fynd â CMCC. Cynhaliwyd gweithdy i edrych ar enghreifftiau o astudiaethau achos o sut y gallai'r CMCC weithredu yn ymarferol.
- **Gorffennaf 2019** Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar y Canllawiau Gweithredu terfynol, gan ddiffinio dyletswyddau a58 a'r cynigion ar gyfer Monitro ac Adrodd ar y CMCC.
- **Tachwedd 2019** Cyfarfod cyntaf y grŵp ers cyhoeddi'r cynllun. Gweminar byr i roi'r newyddion diweddaraf ar gynnydd ac i drafod y prif faterion ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol.
- **Chwefror 2020** Cyfarfod wyneb yn wyneb nesaf.

Cysylltwch â Rebecca.Rees2@llyw.cymru am ragor o wybodaeth